

Nodyn cyfarwyddyd: adrodd ar weinyddu etholiadau y bwriedir eu cynnal yng Nghymru a Lloegr ar 4 Mai 2017 - casglu data ac adborth

Diben

1. Diben y nodyn cyfarwyddyd hwn yw rhoi gwybodaeth am ofynion y Comisiwn ar gyfer dychwelyd data ac adborth etholiadol ar gyfer yr etholiadau y bwriedir eu cynnal yng Nghymru a Lloegr ar 4 Mai 2017. Mae hyn yn cynnwys yr hyn mae'n rhaid ei ddychwelyd, lle i ddod o hyd i'r ffurflenni i'w dychwelyd a lle i ddychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi. Mae hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer adborth ar y profiad o weinyddu'r etholiadau.
2. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth a roddir i ni gan Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Canlyniadau Awdurdod Cyfunol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff ac rydym yn cydnabod bod hon yn adeg brysur iawn i chi. Mae'n bwysig bod ein hadroddiad ar yr etholiadau hyn ac unrhyw argymhellion rydym yn eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. O ganlyniad, os nad ydych yn siŵr am unrhyw beth o'r data y gofynnir amdanynt yma, cysylltwch.

Cefndir

3. Mae'r ffurflen Data Ychwanegol yn cynnwys meysydd sy'n gofyn am wybodaeth am ffigurau cofrestru. Efallai y bydd eich Meddalwedd Rheoli Etholiadol (EMS) yn gallu creu pob un neu rai o'r meysydd ychwanegol hyn.
4. Sicrhewch eich bod yn gwneud trefniadau i'r data a'r ffurflenni gael eu dychwelyd erbyn y terfynau amser, yn enwedig os na fydd y sawl sy'n gyfrifol am eu dychwelyd yn y gwaith pan fydd y ffurflenni i'w dychwelyd.

Data i'w dychwelyd

5. Dylai Swyddogion Canlyniadau ddychwelyd pob un o'r canlynol fel ffeiliau **Excel**:

Llywodraeth Leol yng Nghymru:

Ar gyfer pob **WARD**:

- **Datgan canlyniad y bleidlais** - Dylai hyn gynnwys:
 - enw llawn pob ymgeisydd (os yw'n berthnasol)
 - plaid/disgrifiad (os oes un);
 - nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bob ymgeisydd neu blaid;
 - yr etholaeth gyfan;
 - dadansoddiad o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif yn ôl y rheswm dros wrthod, e.e. diffyg marc swyddogol ac ati;
 - yr ymgeisydd/ymgeiswyr a etholwyd.
- **Ffurflen K: Datganiad o ran papurau pleidleisio post** – dylech ddefnyddio'r canllaw ar lenwi Ffurflen K a gynhwysir gyda'r ffurflen.

Ar gyfer **POB AWDURDOD UNEDOL**:

- **Ffurflen Data Ychwanegol** - Gosodir ffurflen ar gyfer data etholiadol ychwanegol yn yr un ffeil Excel â'r datganiad â'r papurau pleidleisio drwy'r post. Llenwch **UN** ar gyfer yr **awdurdod unedol CYFAN**.

Newidiadau i gyfarwyddiadau ar gyfer dychwelyd data a'r dyddiad cau dychwelyd

6. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, bydd y Comisiwn Etholiadol yn casglu Ffurflenni K a ffurflenni Data Ychwanegol yn uniongyrchol. Anfonwch y rhain drwy e-bostio: research@electoralcommission.org.uk
7. Bydd yr Athro Colin Rallings yn casglu'r datganiad canlyniadau lleol. Anfonwch y rhain drwy e-bostio elections@plymouth.ac.uk.
8. Dychwelwch bob ffurflen **cyn gynted ag y bo modd**. Fodd bynnag, ry'n ni'n gwerthfawrogi y byddwch chi'n brysur yn dilyn etholiadau mis Mai gyda pharatoadau ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU. **Y dyddiad terfynol ar gyfer derbyn data o ran etholiadau mis Mai felly yw dydd Gwener 23 Mehefin.**
9. Lle mae dychwelyd data yn statudol, byddwch wedi ymgymryd â'ch dyletswydd drwy eu dychwelyd i'r contractwr neu'r Comisiwn fel y bo'n briodol.

Dolenni i ffurflenni a chanllawiau

10. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflenni dychwelyd data perthnasol ar gyfer pob pleidlais ar ein [gwefan](#) dan 'Rhan F: Ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau'

Cysylltu

11. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, dylech gysylltu â [swyddfa leol y Comisiwn](#).

Ffurflenni Adborth Swyddogion Canlyniadau

12. Byddem yn croesawu adborth gan Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Canlyniadau Awdurdodau Cyfunol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a gweinyddwyr etholiadol ar eich profiad o weinyddu etholiadau 2017. Hoffem gael eich barn hefyd am ganllawiau ac adnoddau'r Comisiwn.
13. Yn fuan ar ôl pleidleisiau mis Mai, bydd arolwg ar-lein ar gael ar ein gwefan. Bydd dolen i'r arolwg hwn yn cael ei chylchredeg mewn bwletin yn y dyfodol.